

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 26ain o Fai 2021 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

**Presennol;** Cyng. Berwyn Hughes (ymuno 8.10yh) Cyng. Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Arfon Hughes, Berwyn Harding, Robin Hughes, Sion Alun Roberts, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is-Gadeirydd y Cynghorydd Hedd Pugh. Roedd balchder gallu cyfarfod wyneb yn wyneb unwaith yn rhagor. Roedd ymddiheuriad gan Gynghorydd Cyngor Gwynedd John Pughe Roberts.
2. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gyfarfu ar y 10fed o Fawrth drwy gyfrwng zoom fel rhai cywir ar gynnig Cyng. Catrin Jones a'i eilio gan Cyng. Idris Jones. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod arbennig a gyfarfu ar y 23ain o Ebrill 2021 ar gynnig Cyng. John P Jones a'i eilio gan Cyng. Arfon Hughes. Yn rhan yma'r cyfarfod cymerwyd trosodd gan y Cadeirydd Berwyn Hughes.
3. Materion yn codi cyfarfod 23.04.21;

Adroddwyd am faint y placiau ar y cerrig, a chytunwyd y dylid cadw ar y maint safonol, sef 6 x 3 neu 6 x 6. Dangoswyd engraifft gan y Cyng Berwyn Hughes. Hefyd roedd penderfyniad wedi ei wneud mai Cyngor Cymuned Mawddwy oedd yn gyfrifol am sicrhau fod y cerrig lle gosodir y placiau yn ddiogel a chadarn cyn rhoi y placiau arnynt. Addawodd Cyng Berwyn Hughes y byddai yn gofyn i Hefin Pugh wneud y gwaith yma.

Materion yn codi o gyfarfod 10.03.21;

- a) **Materion Priffyrdd** – adroddwyd ymateb i'r holl faterion yn llythyr Cyngor Gwynedd dyddiedig 17.03.21.
- b) **Mynwentydd yr ardal** – yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, roedd yr e-bost gan y Clerc wedi ei ail-ddanfon i'r Cynghorwyr, gyda manylion enwau y cerrig oedd yn gwyro ym mynwent Dinas. Dyweodd y Cyng Catrin Jones y byddai ei theulu yn gofalu am garreg JJ Tyny braich. Penderfynwyd gofyn i Rhys Bleddyn edrych ar y 3 carreg arall, a chael argymhelliad a phris ganddo am y gwaith. Byddai y Clerc yn cysylltu wedyn gyda'r Cadeirydd Berwyn Hughes, ac yn danfon hyn oddiamgylch y Cynghorwyr, er mwyn gallu symud ymlaen gyda'r mater yma cyn y cyfarfod nesaf.
- c) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – nodwyd nad oedd unrhyw ddatblygiadau i'w hadrodd.
- d) **Materion Cyllid – Cwmni Nod Glas** – dywedodd y Cyng. Arfon Hughes fod eu cais wedi ei ddatrys, ac felly eu bod yn tynnu yn ol y cais am arian i'r Cyngor Cymuned.
- e) **Costau/Cydnabyddiaeth Clerc** – Penderfynwyd sefydlu Pwyllgor Cyllid, ac i adael y mater yma hyd nes byddai y Pwyllgor Cyllid wedi cyfarfod a thrafod hyn. Penderfynwyd y byddai y Pwyllgor Cyllid yn cynnwys y Cadeirydd, Is-Gadeirydd, y Clerc a'r Cyng Catrin Jones. Gwelwyd y dylid cael cynrychiolaeth o'r 3 ward o fewn y Cyngor yn y Pwyllgor hwn i'r dyfodol. Penderfynwyd ymhellach i gynnal y cyfarfod cyntaf hanner awr o flaen cyfarfod nesaf y Cyngor. (gadawodd y Clerc yr ystafell pan drafodwyd a phenderfynwyd hyn)

Yn rhan yma'r cyfarfod, daethpwyd i sylw y Cynghorwyr fod Andrea Smith o Fallwyd yn aros am gael gwrandao ar drafodaeth y Cyngor Cymuned ar fater torri gwair ym

mynwent Mallwyd. Penderfynwyd felly I fynd ymlaen I'r eitem yma. Roedd e-bost wedi ei ddanfôn i'r Clerc gan Andrea Smith ac wedi ei ddsbarthu I'r Cyngorwyr ar yr 22ain o Fai. Roedd yr e-bost yn nodi fod y gwair yn cael ei dorri ddwy waith y flwyddyn fel arfer, ond roedd cais I beidio gwneud hyn yn y Gwanwyn eleni er mwyn arbed y blodau gwylltion, a chwblhau eu cylchdro. Roedd Andrea Smith hefyd yn gaddo ymgymryd a'r cyfrifoldeb, yn ddi-gost, o gadw y llwybrau yn glir, ac y byddai y cerrig beddi yn daclus.

**Cyn i Andrea Smith ddod I mewn I'r Neuadd, pwysleisiwyd yn gryf gan y Clerc beth yw'r rheolau, sef y gall unrhyw aelod o'r cyhoedd fynychu a gwranddo ar drafodaethau y Cyngor ar unrhyw adeg, ond dim I siarad na chyfrannu I'r drafodaeth.**

Yna, arweiniwyd Andrea Smith I mewn I'r neuadd gan y Cyng Arfon Hughes. Trafodwyd y mater yn fanwl. Nodwyd fod gan Gyngor Mawddwy gyfrifoldeb I gadw y fynwent yn daclus, ac hefyd sicrhau fod unrhyw waith yno yn dod dan orchymyn a chaniatad y Cyngor, gyda sylw I lechyd a Diogelwch ynghyd a pholisi yswiriant digonol. Ar gynnig y Cyng John P Jones a'l eilio gan Cyng Hedd Pugh, penderfynwyd mynd ymlaen I dorri y gwair yno fel yn arferol. Cafwyd cynnig o welliant gan y Cyng Arfon Hughes y dylid gwneud arbrawf eleni o dorri ond un waith, ond ni chafwyd eilydd I hyn. Cadarnhawyd felly na ddylid cael unrhyw newid I'r trefniadau eleni.

**Wedi Andrea Smith ymadael, pwysleisiwyd yn gryf iawn mai aelodau Cyngor Cymuned Mawddwy sydd I siarad mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, a bod rhaid cadw yn gadarn i'r rheol yma i'r dyfodol,**

- .....
- f) **Nodwyd y diweddaraf ynglyn a gwersylla/ problem sbwriel ar gomin Dolybont.** Roedd arwyddion gan y Parc Cenedlaethol wedi eu gosod, ac roedd angen atgoffa Cyngor Gwynedd yn dilyn y cais iddynt hwy. Roedd y gwaith o wneud a gosod y polion mewn llaw.
  - g) **Gwasanaeth Band Eang** – roedd y problemau wedi eu danfon ymlaen I Liz Saville Roberts AS, ac roedd hi wedi delio a'r mater yn brydlon iawn. Gwelwyd fod angen danfon unrhyw achosion eraill ymlaen I'w swyddfa.

#### **4. Ethol Swyddogion.**

Ar gynnig Cyng Catrin Jones a'l eilio gan y Cyng. Arfon Hughes, a gyda chefngoaeth unfrydol, penderfynwyd ail-ethol y swyddogion I gyd sef;

Cadeirydd; Cyng Berwyn Hughes  
Is-Gadeirydd; Cyng Hedd Pugh.  
Clerc; Huw T Jones

#### **5. Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Mawddwy ar gyfer 2021/22.**

Aethpwyd drwy'r dyddiadur a chadarnhwyd y byddai y dyddiadau fel a ganlyn;  
21ain Gorffennaf 2021  
1af Medi 2021  
13eg Hydref 2021.  
8fed Rhagfyr 2021.  
26ain Ionawr 2022.

9fed Mawrth 2022.

Ar gynnig Hedd Pugh a'l eilio gan Catrin Jones, penderfynwyd I fabwysiadu y cod ymddygiad a'r asesiad risg a oedd wedi eu danfon allan I bawb ar e-bost ar yr 22ain o Fai, ac hefyd cadarnhawyd y rheoliadau arianol a'r rheoliadau sefydlog sydd ar wefan y Cyngor.

Hefyd atgoffwyd pawb fod Cofrestr Buddiannau pob Cynghorydd ar y wefan, ac os oedd angen diweddarau y manylion yna roedd hyn yn gyfrifoldeb y Cynghorwyr unigol, a dylent gysylltu a'r Clerc.

## **6.Materion Cynllunio.**

Nid oedd unrhyw geisiadau l'w hystyried y tro hwn.

## **7. Materion Cyllid.**

a) Nodwyd fod Cyfrifon Cyngor Mawddwy am y flwyddyn 2019-20 wedi eu dychwelyd gan yr Archwilydd Allanol a'r cyfan wedi ei gwblhau. Nodwyd hefyd yr adroddiad ynglwm wrthynt. Roedd y cyfan mewn trefn, ond nodwyd fod sylwadau nad oedd archwilaidd cyfrifon 2018-19 wedi ei gofnodi gennym ar ol iddynt gael eu dychwelyd gan yr Archwilydd allanol, ac hefyd fod angen i'r Cyngor roi mwy o sylw i drefniadau cyllideb ar gyfer y Cyngor.

b) Roedd yr holl waith o gwblhau Cyfrifon 2020-21 bellach wedi ei gwblhau gan y Clerc, ac roedd y Cadeirydd wedi eu harwyddo. Cyflwynwyd hwy yn ffurfiol i'r cyfarfod. Roedd y Clerc yn cyfarfod cynrychiolydd o Uned Archwilio Cyngor Gwynedd bore Dydd Iau y 27 ar gyfer yr archwiliad eleni, ac yn cyflwyno yr holl ddogfennau.

c) Cyfeiriwyd at gyllideb 2020-21 a oedd wedi ei chwblhau yn Rhagfyr 2020 cyn penderfynnu ar y praesept, a chadarnhawyd ei bod wedi ei chylchredeg i'r holl Gynghorwyr drwy e-bost ymlaenllaw ar y 23ain o Fai. Trafodwyd ei chynnwys, a bod y Cyngor eisoes wedi clustnodi £300 i Eisteddfod y Grogolith, £400 i Adran yr Urdd, a £400 i Glwb Ffermwyr Ifanc Dinas Mawddwy. Penderfynwyd y gellir mynd ymlaen i dalu'r arian yma. Nodwyd hefyd fod rhan gyntaf y praesept i law, sef £4,750. Atgoffwyd pawb fod cynnydd pellach i fod eleni i gyfanswm o £10,120 yn dilyn penderfyniad Cyngor Gwynedd i roi premiwm ychwanegol ar ail-gartrefi, ond nid oedd yr ychwanegiad yma wedi ei dderbyn hyd yma. Roedd y Clerc wedi ysgrifennu i gael eglurhad. Atgoffwyd pawb hefyd o'r cynnydd dros y blynnyddoedd diwethaf, sef;

2018-19 - £8400

2019-20 - £8820

2020-21 - £8820 (dim cynnydd)

2021-22 - £9500 ( £620 ychwanegol i ddod eto oherwydd premiwm ail - gartrefi)

d) Cytunwyd i dalu yswiriant y Cyngor ar gyfer 2021-22, sef swm o £278.40, a bod y gorchudd yn ddigonol. Roedd yr holl bapurau ynglwm a hyn wedi eu danfon allan i'r holl Gynghorwyr ar yr 22ain o Fai drwy e-bost. Gofynnodd y Cyng Arfon Hughes a fyddai modd cynnwys casglu sbwriel a wneir o fewn y gymuned o dan yswiriant y Cyngor. Dywedodd y Clerc y byddai rhaid iddo gael gwybodaeth yn ysgrifenedig, ac yna gwneud cais i'r Cwmni. Nid oedd hyn wedi ei ganiatau yn y gorffennol, a byddai rhaid cael manylion lawn o faint o unigolion sydd ynglwm wrth hyn, pa mor aml, ymhle ayyb.

e) Cytunwyd i dalu anfoneb Archwilio Cymru am £372.45, sef cost archwiliad allanol 2019-20.

f) Roedd cais am arian i law gan Ty Gobaith, a chytunwyd, ar gynnig Idris Jones a'i eilio gan Berwyn Harding, i gyfrannu £250.

## 8. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd at ohebiath gan ddigwyddiad Red Bull eleni a oedd eisoes wedi ei ddanfon i'r holl Gynghorwyr gan y Clerc. Roedd y digwyddiad yn digwydd ar benwythnos y 24ain o Orffennaf.
- b) Cyfeiriwyd at ohebiaeth ynglyn a Chynllun setliad yr Undeb Ewropeaidd – roedd y cyfan wedi ei ddanfon i'r Cynghorwyr, a phoster wedi roi fynny gan y Clerc, rhag ofn bod hyn yn effeithio ar unrhywun o fewn y gymuned.
- c) Nodwyd lythyr Cyngor Gwynedd 25ain o Fawrth yn nodi man weithiau cynnal priffyrdd o fewn yr ardal.
- d) Cyfeiriwyd at ohebiaeth gan Gyngor Tref Nefyn, a'r atodiadau ynglwm, gan gynnwys cyfarfod zoom am 7yh ar Fai y 27ain. Roedd yn ymwneud a gweld prisiau tai yn saethu i grobris, gyda tua 30% o'r stoc dai yn eu hardal yn ail-gartrefi. Roeddynt yn gweld erydiad yr iaith Gymraeg, heb ddim dyfodol i bobl ifanc gan eu bod yn cael eu prasio allan o'r farchnad. Roeddynt eisieu gweld gweithredu ar y mater, ac roedd rhestr o beth oeddynt wedi ei wneud hyd yma. Gofynnwyd i bawb fyddai modd i gynrychiolydd o Gyngor Mawddwy fod i mewn ar y cyfarfod, ac roedd yn ymddangos nad oedd hyn yn bosib. Gofynnwyd i'r Clerc geisio cael recordiad o'r cyfarfod. Cynigiod y Cyng. Arfon Hughes y dylem eu cefnogi, a cheisio cael gwersi o'u profiad. Cynigiod y Cyng. Hedd Pugh y dylid cael mwy o wybodaeth, a chael trafodaeth ar sut mae hyn yn effeithio arnom yma ym Mawddwy. Cytunwyd ein bod mewn egwyddor i roi pwysau ar y Llywodraeth i edrych i mewn i'r sefyllfa yma.
- e) Roedd e-bost gan Gyngor Gwynedd ynglyn a ymgynghoriad ganddynt gyda rheoli cwn – roedd y cyfan o'r wybodaeth wedi ei yrru allan i bawb ymlaenllaw. Dywedwyd ein bod fel Cyngor yn gefnogol ac roedd angen i bawb lenwi yr holiadur.

9. Aethpwyd ymlaen i ystyried y camau nesaf yng nghyswllt **Cynghorydd i Ward Aberangell**. Roedd hyn yn dilyn y tristwch o golli Iwan Foulkes, ac atgoffwyd pawb fod y Cyngor – er parch iddo - wedi penderfynnu gadael y sedd yn wag, ac I ail-ystyried yn Gwanwyn 2021.

Yn dilyn trafodaeth, gwelwyd yn awr y dylid symud ymlaen I lenwi y sedd. Dywedodd y Cyng. Berwyn Harding fod ganddo enw o'r ardal oedd gyda diddordeb, sef Rhys Davies, Pengwern. Cynigiodd y dylid rhoi ei enw ymlaen, a chafodd hyn ei eilio gan Cyng. Catrin Jones. Roedd balchder fod person ifanc, ac o ardal Aberangell gyda diddordeb yn y gwaith. Dywedodd y Clerc y byddai rhaid dilyn trefniant cydnabyddedig, sef rhoi hysbysiad yn yr ardal yn y lle cyntaf, a byddai rhaid I'r Clerc gysylltu gyda Raymond Harvey yn y Cyngor.

10. Aethpwyd ymlaen I drafod trefniadau **torri gwair mynwentydd Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy** yn 2021. Cadarnhawyd y dylid dilyn y trefniant arferol o ofyn I Hefin Davies wneud mynwent y Dinas, a Tegid Humphreys wneud mynwentydd Mallwyd a Llanymawddwy, a gyda'r telerau arferol. Yng nghyswllt Mallwyd, nodwyd fod iddew yn tyfu dros nifer fawr o'r cerrig beddi, ac wedi eu gorchuddio. Byddai angen gwneud hyn wrth dorri y gwair.

## 11. Unrhyw Fater arall.

- a) Adroddwyd fod yn braf gweld penderfyniad fod Ysgol Bro Hyddgen yn mynd i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn destun balchder mawr.

- b) Mynegwyd pryder difrifol am achos o or-yrru ar yr hen ffordd o Minllyn i Aberangell. Roedd perygl i ddefnyddwyr y ffordd, yn arbennig teuluoedd oedd yn cerdded ar y ffordd yma. Roedd yna gyswllt eisoes wedi ei wneud gyda'r heddlu am hyn. Roedd awgrym a oedd yn bosib ymestyn yr ardal cyfyngu teithio 30mya, a chytunwyd y dylid pwysu am hyn.
- c) Cyfeiriwyd sylw y cyfarfod i'r gwaith gwerthfawr a wneir gan yr elusen Tir Dewi, sydd yn cynnig cymorth i amaethwyr a thrigolion cefn gwlad mewn achosion o or-bryder neu iselder, lle roedd angen cymorth.
- d) Roedd cebl ffon yn isel ar ffordd Mawddwy o dan Brynuchaf, gyda perygl i ddefnyddwyr y ffordd, ac awgrymwyd y dylid codi hyn gyda'r adran Briffyrdd.
- e) Roedd problemau yn parhau gyda'r toiledau yn y Dinas, sef fod dwr yn golwng, ac hefyd nid oedd golau yno.
- f) Roedd mwd ar faes parcio Lawnt y Plas, sef y rhan sydd yn gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd, ac angen glanhau/tacluso.
- g) Roedd hen bont Minllyn angen sylw, gan fod rhai cerrig yn rhydd, ac iddew yn tyfu arni. Roedd yn ymddangos fod angen eglurder am bwy sy'n gyfrifol, sef Adran Cefnffyrdd yntau Cyngor Gwynedd. Hefyd awgrymwyd a ddylid dwyn sylw CADW i'r sefyllfa
- h) Roedd cwynion difrifol am y gwasanaeth a geir bellach yn y Feddygfa yn Machynlleth, a rhoddwyd engraifft o drafferthion i gysylltu a chael sylw. Gwelwyd y dylid danfon hyn ymlaen i'r Awdurdod Iechyd a/neu y Cyngor Iechyd Cymuned.
- i) Roedd cyflwr y ffordd ym Mallwyd i fynny ac heibio yr Eglwys mewn cyflwr gwael, sef difrod dwr a tyllau. Roedd angen cyfeirio hyn at Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.
- j) Roedd coed yn tyfu uwchlaw y ffordd rhwng Pont y Brook a'r Ffatri Wlan, ac angen cyfeirio hyn at Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.
- k) Roedd dwr yn parhau yn broblem ar yr A470 ar dop Bwlch yr Oerddrws lle bu gwelliant yn ddiweddar.
- l) Nodwyd unwaith yn rhagor fod y Maes Parcio ar ben Bwlch yr Oerddrws yn llawn ar sawl achlysur yn ddiweddar, ac y dylid cael gwell trefn fel bod lle i gerbydau droi yno mewn argyfwng. Awgrymwyd ysgrifennu i'r Parc Cenedlaethol.
- m) Mynegwyd cwynion nad oedd giat wedi ei roi ar bont Dolybont, yn dilyn addewid pendant y byddai hyn yn cael ei wneud. Atebodd y Cyng Arfon Hughes fod y Peiriannydd Jonathan Chapman wedi dweud nad oedd hyn ei angen. Roedd dealltwriaeth fod Jonathan Chapman wedi siarad gyda'r porwyr, ond atebodd Cyng Hedd Pugh a John P Jones nad oedd hyn yn wir. Mynegwyd teimladau cryf fod rhaid cadw at yr addewid a roddwyd, ac a gofnodwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ynglyn a hyn, ac addawodd Cyng Arfon Hughes hefyd y byddai yn codi hyn eto.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY, NOS FERCHER  
21ain Gorffennaf 2021, 8.00yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 10.10yh.